**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 438**
**23 Ebrill, 2020 - Cyfarfod dros Skype**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |

**Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

| | |
|---|---|
| Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

**Hefyd yn bresennol:**
**Staff S4C:**

| | |
|---|---|
| Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) |
| Steve Cowin | (Prif Swyddog Technegol) |
| Rhys Bevan | (Rheolwr Gweithrediadau Cynnwys) |
| Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) |
| Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) |
| Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

## COFNODION

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Nododd SL ei diddordeb o ran y drafodaeth am drefniadau newydd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd oherwydd Covid-19. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau pellach.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod Ebrill 1af**

Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod rhif 437 a gynhaliwyd ar y 1af o Ebrill. Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.

3. **Materion yn Codi**

**Cymorth i'r Sector -** Holodd HHE am becyn cymorth S4C i'r sector a chynllun furlough Llywodraeth y DU. Dywedodd OE taw'r cyngor gan DCMS oedd na

ddylai cyrff sy'n cael eu hariannu gan yr Adran helpu cwmnïau i dalu'r 20% o wahaniaeth.

**Cwmnïau Cynhyrchu**

**[Crynodeb:** Trafodwyd sefyllfa'r cwmnïau dan yr amgylchiadau presennol.]

4. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y gofrestr. Byddai nifer o'r pwyntiau gweithredu parthed Covid-19 a chydleoli yn codi fel rhan o'r drafodaeth.

**Eitem 8 – [Crynodeb:** Holodd RhW am y gwaith o ystyried rhai cytundebau. Nododd EM y bydd yn adrodd yn ôl yn weddol fuan.]

**Eitem 9** –Nododd EM fod trafodaethau'n parhau gyda'r BBC o ran cynlluniau gadael staff i fynd.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Dywedodd RhW fod ganddo sgwrs gyda DCMS yr wythnos ganlynol. Un mater byddai'n codi oedd yr angen i fwrw ymlaen gyda recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd. Roedd OL hefyd wedi bod yn cynnal trafodaethau i geisio cael cadarnhad o'r ymestyniad i gytundebau SL a HHE.

Roedd RhW am gofnodi'n ffurfiol diolch y Bwrdd i holl staff S4C am gynnal y gwasanaeth yn ystod y cyfnod yma. Yn amlwg yr heriau tymor byr ynghylch COVID-19 oedd y ffocws dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Serch hynny, roedd RhW yn awyddus hefyd i edrych i'r dyfodol a dechrau'r gwaith o gynllunio ar gyfer 2022.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

**Ymateb S4C i COVID-19**

Dywedodd OE fod y tîm COVID-19 yn parhau i gwrdd bob bore am 9 o'r gloch i drafod materion o bwys.

**Staff a'r Gweithle**

Nodwyd bod y penderfyniad i gadw Parc Tŷ Glas yn ogystal â buddsoddi mewn technoleg i alluogi gweithio'n hyblyg wedi dwyn ffrwyth yn ystod y cyfnod yma. Roedd OE yn diweddaru staff yn gyson, yn ysgrifenedig a galwadau wythnosol lle'r oedd 90+ yn ymuno dros Skype, a chynnal sesiwn benodol am gydleoli. Roedd yna weithgareddau yn digwydd fel Yoga, Cwis. Roedd OE yn annog staff i gwblhau'r asesiad DSE eto gan fod gymaint yn gweithio o adref ac roedd camau penodol yn parhau yn PTG o ran glendid a'r rheol 2 metr.

**Darlledu/Technoleg**

Nodwyd fod popeth yn iawn ar hyn o bryd yn PTG gyda dim problemau sylweddol. Roedd y tîm yn gweithio'n agos gyda Arqiva. O ran Adfer mewn Argyfwng, roedd prawf "i'r awyr" ar fore 17 Ebrill yn llwyddiannus a'r gwaith o archifo wedi oedi am y tro er diogelwch y gweithwyr hanfodol. Dim ond y staff angenrheidiol oedd yn PTG.

**Y Sector**

Adroddwyd fod llawer iawn o gyfathrebu rhwng S4C, y sector a TAC wedi digwydd dros yr wythnosau diwethaf. Cyfarfu swyddogion S4C dros Skype gyda 120 o bobl o'r sector, i'w diweddaru ynglŷn â chomisiynau brys ac ati a chyhoeddwyd pecyn o gymorth. Roedd y swyddogion hefyd wedi cyfarfod gyda chwmnïau unigol.

**Sefyllfa Ariannol**

Nodwyd fod y gwaith 'year-end' gyda'r NAO a TIAA yn parhau. Roedd swyddogion mewn cysylltiad agos gyda DCMS am y sefyllfa ariannol ac roedd 'scenario planning' yn parhau o gwmpas codi'r lockdown a'i heffaith ar y cyllid cynnwys.

**Prosiect Cydleoli**

Eglurodd OE nad oedd unrhyw gynnydd wedi bod ar y prosiect. Oherwydd yr amgylchiadau eithriadol yn sgil Covid-19 roedd rhan helaeth y gwaith wedi dod i ben ac eithrio trwsio gwallau ac ychydig o brofi.

**Cyfathrebu/Hyrwyddo**

Soniodd GW am y gwaith hyrwyddo gan gynnwys llu o gyfweliadau teledu, radio, a sylw yn y wasg. Y nod oedd esbonio yn rhagweithiol yr hyn mae S4C yn gwneud yn ystod yr argyfwng. Byddai sesiwn Facebook live arall gydag OE ac AR heno. Nododd RhW fod hwn wedi profi fod ffyrdd eraill o ymwneud gyda'r gynulleidfa. Roedd yn awyddus i hyn barhau ac i swyddogion gynllunio ffyrdd newydd o ymgysylltu.

Gofynnodd OD a oedd cynllun o ran sut y gellir bwrw ymlaen gyda rai elfennau o Strategaeth 22 dros y misoedd nesaf, gan gydnabod y flaenoriaeth oedd delio gyda'r sefyllfa bresennol? Cytunodd OE gan nodi bod OL yn edrych ar sut allwn barhau'r gyda'r gwaith o gynllunio i'r dyfodol.

Yn ogystal, roedd EM yn gweithio ar bapur oedd yn edrych ar y camau byddai angen wrth i lockdown llacio, gan gynnwys prif egwyddorion S4C e.e. blaenoriaethu'r angen i warchod darlledu o PTG.

**[Crynodeb:** Roedd AR yn teimlo y byddai gwerthusiad o'r cyfnod yma yn bwysig yn y dyfodol, er mwyn edrych ar beth wnaeth gweithio ai beidio â'r tueddiadau gwylio yn ystod yr argyfwng. Ym mysg eraill, roedd angen ystyried a chymharu perfformiad nos Wener yn ystod y cyfnod a gwylio plant ar draws y llwyfannau. A hefyd y balans rhwng y genres, y gwylwyr di- Gymraeg, a'r apêl i'r gwylwyr craidd. Byddai'r gwaith dadansoddi yn bwysig o ran penderfyniadau anodd dros y blynyddoedd nesaf.]

Esboniodd GW fod tair elfen i'r cyfathrebu yn sgil COVID-19. Yn gyntaf, roedd e'n bwysig diweddaru'r staff yn fewnol trwy e-byst, cyfarfodydd staff ac ati. Yr ail elfen oedd cyfathrebu gyda'r gwylwyr gyda gwybodaeth gyson am raglenni ac esbonio sut oedd y gwasanaeth yn addasu yn ystod y cyfnod yma. Y drydedd elfen oedd cyfathrebu gyda'r sector a rhandaliad allweddol.

**[Crynodeb:** Holodd OD ynglŷn â'r capasiti mewnol o ran staff. Roedd OE o'r farn fod cadw Parc Tŷ Glas a chyflwyno trefniadau gweithio'n hyblyg wedi bod yn fanteisiol iawn i gadw pethau i fynd mewn cyfnod o absenoldeb anorfod. Nododd AR taw'r prif bryder ar hyn o bryd oedd staff yn gweithio oriau hir.

Nid oedd hyn yn gynaliadwy yn yr hir dymor ac ychwanegodd SL fod angen cadw llygaid ar les y staff. Dywedodd CW fod pwysau gwaith mewn rhai timoedd ar hyn o bryd ond bod cysylltiad cyson rhwng yr aelodau o'r staff a'r rheolwyr.]

**Diweddariad Masnachol**

**[Crynodeb:** Roedd adroddiad ysgrifenedig yn y papurau ar y sefyllfa fasnachol gan gynnwys Parc Tŷ Glas a'r tenantiaid, Cwmni Sky, a Sarasin.]

Roedd cynlluniau ar y gweill i drafod cynnig hysbysebion am ddim i elusennau sy'n gysylltiedig â gwaith Covid-19 drwy Sky. Byddai cyhoeddiad ynglŷn â hwn wythnos nesaf.

7. **Diweddariad Ariannol**

Cyflwynwyd diweddariad ar y gyllideb cynnwys, a'r gwaith ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf i edrych ar effaith COVID-19 ar y sefyllfa ariannol. Roedd pethau'n newid yn ddyddiol a'r ffigurau yn cael eu diweddaru yn gyson.

**[Crynodeb:** Dywedodd SW fod y tîm cyllid ar hyn o bryd yn gweithio ar y ffigurau alldro (out-turn) ar gyfer 2019/20.

O ran 2020/21, roedd COVID-19 yn barod wedi cael effaith ar yr amserlen dros y misoedd nesaf, nid yn unig o ran Chwaraeon a Digwyddiadau, ond hefyd dramâu sebon a drama. Roedd swyddogion yn edrych i mewn i'r goblygiadau o golli cynnwys ac yn gweithio ar wahanol senarios wrth ddod allan o'r lockdown.

Roedd y tîm wedi penderfynu comisiynu peth cynnwys newydd. Dywedodd AR fod yna balans anodd rhwng comisiynu er mwyn llenwi bylchau yn yr amserlen o fis Mehefin ymlaen, ond hefyd cadw mewn golwg beth all digwydd o ran y lockdown a faint o'r archif dylid defnyddio. Yn ogystal, roedd paratoi ar gyfer 2022 ymlaen yn ffactor bwysig.

Roedd hi'n glir i SL fod swyddogion yn cynllunio cymaint ag y gallent a bod gan y Bwrdd ymddiriedaeth yn eu penderfyniadau.

8. **Newyddion Digidol S4C – y camau nesaf**

Cyflwynodd GE papur yn diweddaru'r Bwrdd ar ddatblygiadau yn ymwneud a newyddion digidol S4C. Nododd bod y cyfnod diweddar yn dangos faint oedd angen gwasanaeth newyddion a materion cyfoes.

**[Crynodeb:** Roedd ITN wedi cwblhau'r gwaith o baratoi adroddiad ar y maes ac wedi cyflwyno'r adroddiad i S4C.

Amlinellwyd y camau nesaf, gan gynnwys:

- Ymchwil cynulleidfa ansoddol a meintiol,
- Ymchwil i frandio a dylunio'r gwasanaeth,
- Ymchwil pellach i gost creu ap a gwefan newydd, ac
- Arbrofi gyda'r cynnwys a'r platfformau sydd ar gael.]

Penderfynodd y Bwrdd i gymeradwyo'r gwaith ymchwil dechreuol.

9. **Ymateb S4C i Archwiliad Pwyllgor Dethol DCMS ar Ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus**

Cyflwynwyd copi o ymateb S4C. Roedd y Bwrdd yn hapus gyda'r ymateb.

10. **Cyrhaeddiad S4C yn 2019/20**

Cyflwynodd EJ adroddiad ar gyrhaeddiad S4C yn 2019/20.

**[Crynodeb:** Trafodwyd y mesurau i ymddangos yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw cyfartaledd yr oriau brig yn ôl y diffiniad newydd (rhwng 7pm a 10pm) yn cael ei adrodd ar hyn o bryd. Nodwyd pwysigrwydd edrych ar berfformiad S4C mewn cymhariaeth a PSBs eraill dros gyfnod o 4-5 mlynedd. Nododd y Bwrdd yr adroddiad gan ofyn i EJ ystyried be fyddai'n addas cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.]

11. **Crynodeb o Adroddiad Tracio Delwedd Beaufort**

Cyflwynodd Eilir Jones grynodeb o arolwg tracio delwedd S4C gan Beaufort.

**[Crynodeb:** Roedd y gwaith hwn yn bwydo mewn i'r Adroddiad Blynyddol. Roedd y sampl eleni ychydig yn is na llynedd oherwydd COVID-19 ond roedd EJ yn hapus ein bod yn gallu defnyddio'r wybodaeth.

Roedd yr Aelodau yn holi am fwy o fanylion ar ambell i bwynt, felly, penderfynwyd gofyn i Beaufort wneud gwaith pellach, gan geisio mwy o fanylder gyda rhai o'r cwestiynau.]

12. **Perfformiad mis Mawrth 2020**

Cyflwynodd EJ ddadansoddiad o berfformiad y gwasanaeth dros fis Mawrth.

**[Crynodeb:** Roedd colli chwaraeon oherwydd cofid wedi cael effaith fwy ar gyrhaeddiad S4C, yn enwedig y sianel linol, o'i chymharu â sianelau eraill sydd ond yn dangos chwaraeon yn achlysurol. Mae'n credu mai'r un rheswm sy'n gyfrifol am y gostyngiad yn yr oriau a wyliwyd ar Clic o'i chymharu â'r cynnydd sylweddol i iPlayer.]

13. **Unrhyw Fater Arall**

**[Crynodeb:** Yn sgil trafodaethau'r diwrnod blaenorol yn y Pwyllgor Cynnwys a'r Pwyllgor Archwilio, nodwyd y byddai'r Cadeiryddion yn ysgrifennu at y BBC.]